

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd Nos Fawrth, 12 Mawrth 2019 yn Canolfan Y Fron

Minutes of the Cemeteries & Property Committee held Tuesday, 12 March 2019 at Canolfan Y Fron

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones David Roberts, Rheolwr Cweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council Admin & Finance Manager.

1 Croeo'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Pwyllgor sef Cyng. Clive Bayley. Croeaswodd pawb i'r cyfarfod. Aeth ymlaen at y rhaglen yn syth.

The meeting was opened by the Chairman of the Committee Cllr .Clive Bayley, He welcolmed all who attended and proceeded straight onto the evenings business.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Helen Hughes; Cyng. Alan Patterson; Cyng. Dyfed Williams

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.

No declaration of personal or prejudicial interest was made by those present

4 Cae Pel-droed Y Fron / Fron Football Field

a) Cais gan y Ganolfan i wneud defnydd o'r cae / Request By The Ganolfan to use the football field

Adroddwyd gan Rheolwr y Cyngor fod Rheolwr Canolfan y Fron wedi cysylltu yn gofyn am ganiatad y Cyngor i ddefnyddio y cae peldroed Y Fron ar gyfer cynnal grwpiau o bobol i gynnal gweithgareddau ac i wersylla. 'Roedd y Ganolfan yn gweld fod hyn am gynhyrchu ffrwd incwm newydd sydd yn hynod bwysig i gadw'r Ganolfan yn agored
Gwahodddwyd Rheolwr y Ganolfan, (Matthew) i'r cyfarfod i egluro i'r aelodau beth oedd eu gynlluniau. 'Roedd wedi cytuno i fod yn bresennol. Siomedig oedd y ffaith nad oedd Matthew yn bresennol i egluro y cais.

'Roedd gan yr aelodau bryderon o safbwynt-

- 1) Swm ac aflonyddu trigolion.
- 2) Hawl cynllunio
- 3) Newid defnydd y cae o fod ar gyfer trigolion lleol
- 4) Risgiau - peryglon tan efallai?
- 5) Nifer y pebyll

Yr aelodau yn cefnogi mewn egwyddor, yn arbennig os oedd defnydd y cae yn golygu ffrwd incwm newydd i'r Ganolfan, ond fod angen fwy o wybodaeth gan y Ganolfan.

Trafodwyd cais y Ganolfan 'nol yn Ebrill 2018 i gymeryd meddiant o'r cae trwy brydles. Penderfyniad y Cyngor (yn Ebrill 2018) oedd i gynnig y cae i'r Ganolfan ar brydles tymor hir o 99 mlynedd gydag amodau. Nid yw'r cae wedi ei drosglwyddo i'r Ganolfan gan fod y Cyfarwyddwyr wedi penderfynu oedi hyd nes y bydd y gwaith o sefydlu y Ganolfan wedi setlo.

Argymhelliad i'r Cyngor – Derbyn y cais mewn egwyddor, yn arbennig os yn agor ffrwd incwm newydd i'r Ganolfan ond oedi ar hyn o bryd hyd nes daw fwy o wybodaeth gan gan Rheolwr y Ganolfan.

Recommendation to Council – to agree in principal to the request, especially if it means generating additional stream of funding to the Ganolfan , but to delay any decision until more information is received by the Ganolfan

b) Mynediad i'r Cae – Giat / Access to the Field - Gate

Adroddwyd gan y Rheolwr fod angen giat newydd i'r cae ac atgoffwyd yr aelodau o gais Y Grwp Datblygu i dynnu tamaid o'r wal nail ochr i'r postiau giat .

Argymhelliad i'r Cyngor – fod y Pwyllgor hwn yn ymweld y safle yn fuan cyn rhoi argymhellion i'r Cyngor a gwaith sydd ei angen..

Recommendation to Council – for the Committee to visit the field before recommending to the Council on the work that is required

5 Llochesi Bws / Bus Shelters

Adroddwyd gan y Rheolwr-

Lloches Cae'r Moel – wedi ei osod. Aelodau yn fodlon gyda'r llw glas. Yn gweddu gyda'r ardal.

Llochesi Sgwar Y Groeslon – disgwyl i Cyngor Gwynedd osod dau loches newydd. Cais wedi ei wneud I CG I ail-leoli y llochesi yn Cwm Y Fron ac yn Dinas Dinlle. Cyng. Eddie Willcox yn gwneud cais I Grwp Alexandra I gael caniatad I osod lloches ar lecyn o dir yn y Cwm.

AWJ yn atgoffa yr aelodau mai cysgodfan oed y cais wreiddiol nid lloches. Gellir ystyried adeladu cysgodfan ar y safle parcio newydd fel sydd I weld ar llawr o safleoedd erbyn hyn.

CB – doeth fyddai gofyn i Cyng. Dyfed Williams am ei fewnbwn ar lleoliad lloches bws

GOJ – angen ystyried canlyniad yr ymgysylltu

Argymhelliad i'r Cyngor – Gohirio penderfyniad hyd nes y bydd Grwp Alexandra yn ystyried y cais safle i osod lloches yn Cwm, Y Fron, gan ddisgwyl ymateb Cyngor Gwynedd ar gyfer ail-leoli llochesi bws sgwar y Groeslon yn Dinas Dinlle a Cwm a disgwyl canlyniad yr ymgysylltu.

Recommendation to Council – to delay any decisions until the Alexandra Group considers the request to give permit a location for a bus shelter at Cwm, Y Fron, to await a reply from Gwynedd to re-locate shelters from Groeslon Square to Dinas Dinlle and Cwm and to await the result of the consultation.

6 Fynwent Bryn'rodyn Cemetery

a) Giat rhwng y ddau fynwent – adroddwyd gan y Rheolwr fod Meirion Williams yn ymddiheuro am yr oedi yn gosd y giat ohwerydd pwysau gwaith. Disgwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn y dyddiau nesaf.

b) Safleoedd Claddu - adroddwyd fod y Rheolwr wedi cynnal arolwg o safleoedd claddu yn y fynwent . 11 safle ar gael – 6 ger yr hen gwt , 4 yn y cefn ac un yn y canol

AWJ – cerrig mawr yn y ddaear yn y safleoedd ger yr hen gwt. Awgrynu ei rodio.

Argymhelliad i'r Cyngor – Fod y Rheolwr yn gofyn Cwmni Roberts ac Owen i rodio y safleoedd claddu ger yr hen gwt i adnabod yr union nifer o safleoedd claddu addas sydd yn y fynwent cyn cynllunio i agor y fynwent newydd.

Recommendation to Council – for the Manager to ask Roberts & Owen (Undertakers) to rod the empty spaces at the front of the cemetery to indentify how many suitable grave spaces there are in the cemetery before making any plans to open the new cemetery.

Daeth y cyfarfod i ben am 7:50 yr hwyr / Meeting closed at 7.50pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	